Ffocws ar Farcio

CYFRES YR HAF 2018

Mae dysgwyr bellach wedi gorffen eu harholiadau ac yn edrych ymlaen at y gwyliau haf. Ar gyfer byrddau arholi a'u arholwyr (athrawon fel arfer), mae'n amser i farcio a phennu ffiniau gradd cyn y diwrnodau canlyniadau ym mis Awst.

Rwyf newydd sefyll fy arholiad, beth sy'n digwydd nawr?

Ar ddiwedd yr arholiad, bydd yr arolygwyr yn y neuadd arholiadau yn selio'r papurau a gwblhawyd ac yn eu hanfon i'r bwrdd arholi, naill ai'n uniongyrchol at arholwr neu i ganolfan sganio.

Ar gyfer arholiadau sy'n cael eu marcio ar y sgrin, caiff y llyfrynnau atebion (rydym yn galw rhain yn 'sgriptiau') eu hanfon i gyfleuster sganio diogel. Unwaith y cânt eu sganio, anfonir copïau digidol drwy system ar-lein ddiogel i arholwyr ar gyfer eu marcio.

Ar gyfer arholiadau a gaiff eu marcio ar bapur, anfonir y sgriptiau yn uniongyrchol o'r ysgol at arholwyr unigol.

Pwy sy'n marcio fy ngwaith?

Mae pob arholwr sy'n gwneud gwaith marcio ar ran CBAC yn athro cymwys gydag o leiaf blwyddyn o brofiad addysgu.

Bob blwyddyn, caiff yr holl arholwyr hyfforddiant trylwyr ar y ffordd gywir o gymhwyso'r cynllun marcio mewn cynadleddau hyfforddi wyneb yn wyneb.

Prif arholwr y bwrdd arholi sy'n llunio'r cynllun marcio. Mae'r cynllun hwnnw'n rhoi canllawiau manwl ac atebion enghreifftiol ar gyfer pob cwestiwn yn y papur arholiad.

A yw pob arholwr yn rhoi'r un marciau?

Cyn iddynt fynd ati i farcio, mae'n rhaid i arholwyr farcio sampl o sgriptiau a mynychu cyfarfod safoni. Arweinir y cyfarfod gan yr uwch arholwyr sydd wedi ysgrifennu'r papurau cwestiynau. Yn y cyfarfod hwnnw, mae'r arholwyr yn adolygu a thrafod y cynllun marcio'n ofalus er mwyn sicrhau y gall pob un ohonynt ei gymhwyso'n gyson. Er enghraifft, os rhoddir ateb annisgwyl i gwestiwn, byddant yn cytuno ar sawl marc y dylid ei roi am atebion tebyg eraill.

Caiff arholwyr eu monitro drwy gydol y cyfnod marcio er mwyn sicrhau eu bod yn marcio mewn ffordd gywir a chyson.

Ar gyfer arholiadau a gaiff eu marcio ar bapur, rhaid i arholwyr anfon hapsampl o'r sgriptiau a farciwyd ganddynt at uwch arholwr i'w gwirio. Bydd yr uwch arholwr yn rhoi adborth ar waith marcio'r arholwr. Os

na fydd yr arholwr yn marcio mewn ffordd gywir neu gyson, caiff ei atal rhag

marcio. Yna caiff ei sgriptiau eu hailddyrannu i arholwr gwahanol er mwyn cael eu marcio. Caiff unrhyw sgriptiau a farciwyd eisoes eu gwirio ac, os bydd angen, cânt eu hailfarcio.

Erbyn hyn caiff llawer o arholiadau eu marcio ar y sgrin, lle mae'r broses ychydig yn wahanol. Rhoddir cwestiynau penodol i arholwyr eu marcio, felly ni fydd arholwr yn gweld pob un o atebion myfyriwr fel arfer. Mae hefyd yn golygu ei bod hi'n annhebygol iawn y caiff arholiadau ysgol eu marcio gan un arholwr. O ran gwaith marcio ar y sgrin, caiff gwaith arholwr ei wirio'n awtomatig. Bob hyn a hyn, rhoddir cwestiwn i arholwr ei farcio sydd eisoes wedi'i farcio gan uwch arholwr. Nid yw'r arholwr yn gwybod a gwestiynau yw'r rhain. Os bydd y marciau a roddir ganddo yn wahanol i'r marciau a roddwyd gan yr uwch arholwr, yna bydd y system yn ei atal rhag marcio ar unwaith a chymhwysir yr un mesurau rheoli ansawdd â'r rhai ar gyfer arholiadau a gaiff eu marcio ar bapur.

Sut y penderfynir ar ffiniau graddau?

Unwaith bydd yr holl sgriptiau wedi'u marcio, bydd yr uwch arholwyr yn cyfarfod i benderfynu ble y dylid pennu **ffiniau graddau.** Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, byddant yn ystyried safon y gwaith a farciwyd ganddynt, yn adolygu amrywiaeth o waith myfyrwyr lle rhoddwyd marciau sy'n agos at ffiniau'r graddau sy'n cael eu hystyried ganddynt ac yn ystyried tystiolaeth ystadegol.

Bydd uwch arholwyr yn ystyried yr holl dystiolaeth hon wrth argymell ffiniau'r graddau ar gyfer y gyfres hon o arholiadau.

Beth yw rôl Cymwysterau Cymru?

Mae Cymwysterau Cymru yn monitro ac yn goruchwylio'r cyfnod dyfarnu sy'n digwydd ar ôl i'r sgriptiau gael eu marcio a'u dychwelyd i'r byrddau arholi.

Cyn cadarnhau canlyniadau'r broses ddyfarnu ar gyfer cymhwyster, rhaid i'r byrddau arholi ein hysbysu o'u ffiniau graddau a chanlyniadau arfaethedig. Os yw'r canlyniadau cyffredinol yn wahanol i'r hyn y byddem yn eu disgwyl, gofynnwn i'r bwrdd arholi egluro pam. Os na fyddwn yn fodlon, gallwn ofyn i'r bwrdd arholi ailedrych ar y dyfarniad neu gynnal dadansoddiad ychwanegol i gadarnhau ei ddyfarniad arfaethedig.

Rhagor o wybodaeth: www.cymwysteraucymru.org E: ymholiadau@cymwysteraucymru.org
T: 01633 373 222 @cymwysterau_cym